

---

## Canllawiau ar gyfer Cyfleusterau Adnabod y Galwr

Ymgynghoriad ar ddiwygio'r canllawiau ar gyfer darparu gwybodaeth Adnabod y Galwr

Gan gynnwys cynigion i addasu'r Cynllun Rhifau Ffôn Cenedlaethol

---

### **YMGYNGHORIAD:**

Dyddiad Cyhoeddi: 19 Medi 2017

Dyddiad Olaf ar gyfer Derbyn Ymatebion: 14 Tachwedd 2017

# Gair am y ddogfen hon

---

Mae Adnabod y Galwr yn rhoi gwybodaeth am y parti sy'n ffonio. Mae hyn yn golygu bod modd i ddefnyddwyr adnabod yr unigolyn neu'r sefydliad sy'n eu ffonio, a gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth ynghylch sut maen nhw am ddelio â'r alwad. Mae modd defnyddio gwybodaeth Adnabod y Galwr hefyd ar gyfer swyddogaethau eraill, fel olrhain galwadau i ddod o hyd i ffynonellau galwadau niwsans neu er mwyn helpu i adnabod lleoliad y sawl sy'n ffonio mewn argyfwng. Felly, mae hi'n bwysig bod data Adnabod y Galwr yn cael ei ddarparu'n gywir a'i gyflenwi'n iawn.

Rydyn ni wedi cyflwyno Amod Cyffredinol newydd sy'n rhoi dyletswyddau newydd ar Ddarparwyr Cyfathrebiadau i ddarparu cyfleusterau Adnabod y Galwr, gan gynnwys gofynion bod y data Adnabod y Galwr sy'n cael ei ddarparu gyda galwad yn cynnwys rhif ffôn dilys mae modd ei ddeialu sy'n gallu dangos yn union pwy ydy'r sawl sy'n ffonio. Er mwyn egluro beth rydyn ni'n disgwyl i Ddarparwyr Cyfathrebiadau ei wneud i roi'r gofynion newydd hyn ar waith, mae angen i ni ddiweddarau ein canllawiau, sy'n nodi'r egwyddorion y dylid eu parchu er mwyn sicrhau bod modd defnyddio data Adnabod y Galwr yn gywir.

Mae'r pwyntiau eglurhad hyn yn ymwneud â'r egwyddorion sylfaenol, a fydd yn gwella dibynadwyedd gwybodaeth Adnabod y Galwr: dilysrwydd, preifatrwydd ac integriti. Mae darparu data Adnabod y Galwr dibynadwy i ddefnyddwyr, sy'n parchu preifatrwydd y defnyddiwr, yn dibynnu ar fod y data'n gywir yn y lle cyntaf a chydweithrediad yr holl Ddarparwyr Cyfathrebiadau sy'n rhan o'r gadwyn i drosglwyddo'r wybodaeth hon ymlaen yn gywir. Mae'r dyletswyddau newydd yn mynnu bod Darparwyr Cyfathrebiadau'n sicrhau bod data Adnabod y Galwr yn cael ei gyfnewid rhwng darparwyr gwahanol yn fwy cywir ac mai dim ond data Adnabod y Galwr dilys sydd ar gael i ddefnyddwyr. Ar ôl gweithredu, dylai ansawdd yr wybodaeth Adnabod y Galwr sy'n cael ei chyflwyno i ddefnyddwyr y rhwydweithiau hyn wella, a rhoi gwybodaeth well i'r defnyddwyr am y sawl sy'n eu ffonio. Byddai hefyd yn helpu rheoleiddwyr a chyrrff gorfodi i fynd i'r afael â galwadau niwsans.

Yn ogystal â'r ymgynghoriad ar y canllawiau Adnabod y Galwr diwygiedig, rydyn ni hefyd yn cynnig darparu ystod newydd o rifau i'w defnyddio pan fydd galwadau gan Ddarparwyr Cyfathrebiadau sydd y tu allan i gwmpas y canllawiau Adnabod y Galwr heb wybodaeth Adnabod y Galwr gysylltiedig neu pan fydd yr wybodaeth honno'n annibynadwy. Rydyn ni'n disgwyl y bydd galwadau sy'n cael eu gwneud yn y DU yn cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn ein canllawiau Adnabod y Galwr. Fodd bynnag, efallai y bydd galwadau sy'n dod o'r tu allan i'r DU nad ydyn nhw'n cydymffurfio â'r rheolau hyn. Yn y sefyllfaoedd hyn, byddem yn disgwyl i'r Darparwr Cyfathrebiadau ar y pwynt mae'n dod i PSTN y DU gyfnewid rhif y rhwydwaith ag un o'r ystod o rifau sy'n cael ei chynnig a nodi nad ydy Adnabod y Galwr ar gael. Byddai defnyddio rhif sy'n benodol ar gyfer y diben hwn o'r ystod newydd o rifau sy'n cael ei chynnig yn helpu ein gweithgareddau olrhain galwadau er mwyn dod o hyd yn gyflym i'r Darparwr Cyfathrebiadau a gafodd yr alwad pan ymunodd yr alwad â rhwydweithiau'r DU.

# Cynnwys

---

## Adran

1. Crynodeb Gweithredol 5-6

# 1. Crynodeb

- 1.1 Mae Adnabod y Galwr yn rhoi gwybodaeth am y parti sy'n ffonio. Mae'r data Adnabod y Galwr sy'n cael ei ddarparu gyda galwad yn gallu rhoi sicrwydd i'r sawl sy'n derbyn yr alwad ynghylch â phwy maen nhw'n siarad, a galluogi'r sawl sy'n derbyn yr alwad i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth ynghylch sut maen nhw am ddelio â'r alwad. Fodd bynnag, er mwyn i hyn weithio'n ddibynadwy, mae'n rhaid bod y data sy'n cael ei gyflwyno i'r sawl sy'n derbyn yr alwad fod yn gywir. Mae hyn yn dibynnu ar ansawdd yr wybodaeth sy'n cael ei darparu gan y Darparwr Cyfathrebiadau tarddu a sut mae'r wybodaeth yn cael ei throsglwyddo rhwng rhwydweithiau gwahanol wrth i'r alwad gael ei gwneud.
- 1.2 Mae'r Amodau Cyffredinol newydd yn mynnu bod Darparwyr Cyfathrebiadau, pan fo hynny'n ymarferol yn dechnegol ac yn economaidd, yn darparu cyfleusterau Adnabod y Galwr, gan sicrhau bod y data Adnabod y Galwr sy'n cael ei ddarparu gyda galwad yn rhif ffôn dilys mae modd ei ddeialu sy'n dangos yn union pwy sy'n ffonio. Ar ben hynny, gan ei bod hi'n bosibl i'r data Adnabod y Galwr ddangos pwy ydy'r unigolyn sy'n gysylltiedig â'r rhif hwnnw, mae'n rhaid i Ddarparwyr Cyfathrebiadau hefyd ddilyn Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebiadau Electronig 2003, sy'n rhoi'r hawl i ddefnyddwyr ddal eu gwybodaeth Adnabod y Galwr yn ôl er mwyn cadw eu preifatrwydd. Felly, mae data Adnabod y Galwr yn cyfeirio at y rhif ffôn a'r nod preifatrwydd cysylltiedig sy'n datgan a oes modd rhannu'r rhif â'r sawl sy'n derbyn yr alwad ai peidio.
- 1.3 Bydd y rhan fwyaf o alwadau yn pasio drwy ddau weithredwr rhwydwaith neu fwy. Er mwyn sicrhau bod y data Adnabod y Galwr yn cael ei gyfleu mewn ffordd gyson rhwng rhwydweithiau gwahanol mae angen cael dealltwriaeth gyffredin rhwng Darparwyr Cyfathrebiadau ynghylch fformat yr wybodaeth a sut caiff ei chyfnwid rhwng rhwydweithiau.
- 1.4 Roedd y canllawiau blaenorol yn canolbwyntio ar y gofynion preifatrwydd, er mwyn parchu preifatrwydd y defnyddwyr. Roedden nhw'n nodi'r egwyddorion y dylai nodau preifatrwydd sy'n dod gydag Adnabod y Galwr allu cael eu trosglwyddo'n gywir rhwng y rhwydweithiau a bod data Adnabod y Galwr ond yn cael ei ddangos pan fydd y defnyddiwr wedi penderfynu darparu'r data hwnnw. Fodd bynnag, yng ngoleuni'r Amod Cyffredinol newydd, rydyn ni'n cynnig diweddarau ein canllawiau Adnabod y Galwr er mwyn darparu mwy o eglurder ynghylch beth rydyn ni'n disgwyl i Ddarparwyr Cyfathrebiadau ei wneud i sicrhau bod data dilys yn cael ei ddarparu gyda galwad ffôn.
- 1.5 Ar ben hynny, ers i'r canllawiau gael eu diweddarau ddiwethaf yn 2007, mae'r datblygiadau mewn technoleg Protocol Llais dros y Rhyngrwyd wedi ei gwneud hi'n haws newid y data Adnabod y Galwr sy'n gysylltiedig â galwad. Gan fod defnyddwyr yn dibynnu ar yr wybodaeth hon i gael sicrwydd ynghylch pwy sy'n eu ffonio, mae data Adnabod y Galwr yn arbennig o agored i gael ei gamddefnyddio wrth iddo gael ei drosglwyddo. Pan fydd data Adnabod y Galwr yn cael ei gamddefnyddio, mae'n gallu arwain at niwed sylweddol i ddefnyddwyr. Er enghraifft, mae modd i'r parti sy'n ffonio fewnosod gwybodaeth Adnabod y Galwr anghywir er mwyn camarwain y sawl sy'n derbyn yr alwad yn friadol. Ffugio ydy'r

enw ar hyn. Felly, mae gan Ddarparwyr Cyfathrebiadau fwy o ran i'w chwarae i sicrhau, pan fo'n bosibl, bod data Adnabod y Galwr cywir yn cael ei gyflwyno i'r defnyddwyr.

- 1.6 Mae'r ymgynghoriad hwn yn edrych ar y newidiadau rydyn ni'n bwriadu eu gwneud i'n canllawiau er mwyn egluro beth a ddisgwylir gan Ddarparwyr Cyfathrebiadau. Mae'r ddogfen hon yn nodi sut mae'r disgwyliadau hyn yn wahanol, gan ddibynnu ar rôl y Darparwr Cyfathrebiadau mewn galwad ffôn. Mae'r ddogfen canllawiau sy'n cael ei chynnig wedi cael ei chynnwys yn Atodiad 1 y ddogfen hon.
- 1.7 Rydyn ni'n cynnig ei bod yn rhaid i Ddarparwyr Cyfathrebiadau ond gyflwyno gwybodaeth Adnabod y Galwr i'w defnyddwyr pan fyddan nhw o'r farn bod y data Adnabod y Galwr a'r nodau cysylltiedig yn ddibynadwy. Rydyn ni hefyd yn rhoi eglurhad ynghylch beth sydd ei angen i ddiwallu'r gofynion bod yr wybodaeth Adnabod y Galwr yn rhif dilys mae modd ei ddeialu sy'n dangos yn union pwy sy'n ffonio. Bydd hyn yn helpu i ddiogelu defnyddwyr drwy sicrhau mai dim ond gwybodaeth mae modd dibynnu arni ydy'r wybodaeth Adnabod y Galwr sy'n cael ei dangos.
- 1.8 Bydd rhai o'r galwadau'n ymwneud â Darparwyr Cyfathrebiadau sydd y tu allan i gwmpas y canllawiau hyn, ee galwadau i neu gan Ddarparwyr Cyfathrebiadau nad ydyn nhw yn y DU. Yn y sefyllfa hon, ar hyn o bryd mae dull gweithredu anghyson rhwng Darparwyr Cyfathrebiadau, gyda rhai Darparwyr Cyfathrebiadau yn mewnosod rhif ar hap o ystod o rifau sydd ganddo. Gan nad ydy Darparwyr Cyfathrebiadau bob amser yn dangos bod gwybodaeth Adnabod y Galwr wedi cael ei mewnosod, nid ydy hi'n glir i'r Darparwyr Cyfathrebiadau eraill yng nghadwyn yr alwad nad ydy'r wybodaeth Adnabod y Galwr yn dangos y rhwydwaith tarddu.
- 1.9 Rydyn ni'n cynnig darparu ystod newydd o rifau i Ddarparwyr Cyfathrebiadau eu defnyddio fel Rhifau Rhwydwaith wedi'u mewnosod mewn sefyllfaoedd pan fydd Darparwyr Cyfathrebiadau'n cael galwadau gan Ddarparwyr Cyfathrebiadau sydd y tu allan i gwmpas y canllawiau hyn ac sydd heb wybodaeth Adnabod y Galwr neu pan fydd yr wybodaeth honno'n annibynadwy. Rydyn ni'n cynnig defnyddio'r ystod o rifau 08979 ar gyfer y diben hwn. O dan y cynnig hwn, pan fydd Darparwr Cyfathrebiadau yn y DU yn cael galwad heb Rif Rhwydwaith dibynadwy, byddai'n mewnosod rhif sydd wedi cael ei ddyrannu iddo o'r ystod hon. Byddai Darparwyr Cyfathrebiadau eraill yn adnabod bod y rhif hwn yn dod o'r ystod hon o rifau sy'n cael eu mewnosod yn lle Rhif Rhwydwaith absennol neu annibynadwy. Byddai hyn yn helpu gyda gweithgareddau olrhain galwadau gan y byddai hi'n haws o lawer adnabod y rhwydwaith sydd wedi mewnosod y Rhif Rhwydwaith a byddai hyn maes o law yn cyflymu'r broses o olrhain galwadau. Byddai hefyd yn helpu Darparwyr Cyfathrebiadau i ddiwallu'r dyletswyddau sy'n cael eu cynnig o dan ein Codau Cyffredinol diwygiedig, bod y data Adnabod y Galwr sy'n cael ei ddarparu gyda galwad yn cynnwys rhifau ffôn dilys mae modd eu deialu.
- 1.10 Daw'r canllawiau Adnabod y Galwr diwygiedig i rym wrth roi'r Amodau Cyffredinol newydd ar waith, o 1 Hydref 2018 ymlaen.
- 1.11 Rydyn ni'n gofyn am safbwyntiau rhanddeiliaid ar y cynigion hyn. Y dyddiad olaf ar gyfer ymateb yw 14 Tachwedd 2017.